# Adroddiad Blynyddol

# Cyngor Cymuned Llanllechid 2025-2026

# Cynnwys


- 1. Croeso
- 2. Cyngor Cymuned Llanllechid
- 3. Gwybodaeth am y Cyngor
- 4. Is-bwyllgorau
- 5. Llwybrau
- 6. Cyllid a Gwariant
- 7. Rhoddion
- 8. Atebolrwydd
- 9. Prosiectau
- 10. Canlyniadau Archwiliadau Mewnol ac Allanol o Gyfrifon y Cyngor
- 11. Diolchiadau
- 12. Amcanion Y Cyngor am 2026/2027

# 1. Croeso

- Hwn yw ail adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanllechid sy’n cofnodi’r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf 2025 – 2026.
- Rydym yn cydweithio â’r gymuned a phartneriaid i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y gymuned i’w gwneud yn lle hyd yn oed gwell i fyw ac ymweld â hi.
- Y weledigaeth: ‘Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gweithredu er budd y gymuned lleol’
- Bwriad yr adroddiad yw rhoi blas o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cydnabod bod hyn mewn hinsawdd heriol i bawb ac wedi ymrwymo i gydweithio â’r gymuned a phartneriaid i wireddu’r weledigaeth.
- Gobeithio y gwnewch fwynhau darllen yr adroddiad ac y bydd o ddefnydd i chi.

Caroline Jones Clerc ar ran y Cyngor Cymuned

# 2. Cyngor Cymuned Llanllechid

- Mae dwy ward yn y Gymuned – Llanllechid Isaf a Llanllechid Uchaf.

- Prif bwrpas y Cyngor Cymuned yw cynrychioli buddiannau trigolion cymuned Llanllechid a hyrwyddo lles yr ardal leol. Gwneir y gwaith yma'n bennaf trwy gyflwyno datganiadau i Gyngor Gwynedd, cyrff eraill megis Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
  - cyfrannu at geisiadau am nawdd bob blwyddyn oddi wrth elusennau/grwpiau/mudiadau ar yr amod y derbynnir mantolen ariannol gyfredol, yn unol â Pholisi/Rheoliadau Ariannol y Cyngor
  - hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd, pontydd, goleuadau stryd, hawliau tramwy a.y.y.b.
  - ymgeisio am nawdd neu ffynonellau cyllid sydd ar gael i gefnogi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor.


- Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb uniongyrchol dros nifer o dasgau gan gynnwys
  - gweinyddu hawliau pori ar dir comin Mynydd Llanllechid, a chadw llwybrau cyhoeddus yn glir o dyfiant
  - gosod y praesept, sef y dreth a ddosberthir i'r Cyngor bob blwyddyn
  - cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd
  - cynnal a chadw ei diroedd a'i eiddo,
    - Cae Chwarae Talybont a Chae Peldroed Talybont
    - Llwybrau cyhoeddus o fewn y plwyf
    - Diffibrilwyr Bro Emrys a Sgwar Llanllechid

# 3. Gwybodaeth am y Cyngor

- Maint y plwyf
  - 677 plwyfolyn
- Seddi Gwag
  - Mae gan y Cyngor un sedd wag ar hyn o bryd

- Wardiau
  - Llanllechid Uchaf
  - Llanllechid Isaf

# Plwyf


Rhoscefnhir
Penmynydd
Llandegfan
Llanfairfechan
Star
Bangor
Caerhun
Llanllechid
Rhiwlas
Bethel
A4244
Ceunant
Nant Peris
A4086
A487

Mae 10 o gynghorwyr ar y Cyngor yn cynrychioli Wardiau Llanllechid Isaf a Llanllechid Uchaf.

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol a gynhelir ym mis Mai.

Y Cyng. Rhydian Williams (Ward Llanllechid Isaf) oedd Cadeirydd 2025 – 2026 a'r Is-gadeirydd oedd Cyng. Robin Williams (Ward Llanllechid isaf)

- **Cynghorwyr Ward Llanllechid Isaf**

Rhydian Williams

Robin Williams

Lowri Evans

Geraint Hughes

Wyn Bowen Harris

Alun Thomas

Evan Jones

- **Cynghorwyr Ward Llanllechid Uchaf**

Kevin Williams

Dafydd Jones

Sedd Wag

## CYFARFODYDD

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar yr ail nos Iau o bob mis yn Festri Capel Bethlehem, Talybont am saith o'r gloch. Mae'r cyfarfodydd hyn ar agor i'r cyhoedd. Y Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor felly, cynhelir y cyfarfodydd yn y Gymraeg, yn unol â'i Bolisi Iaith a'r Rheolau Sefydlog. Anogir aelodau o'r cyhoedd gysylltu â'r Clerc â'u sylwadau neu bryderon a chred y Cyngor ei bod yn hanfodol cael perthynas dda â'r cyhoedd.

## STAFF

Un aelod o staff a gyfloga'r Cyngor, sef Caroline Jones, fel Clerc a Phrif Swyddog Ariannol. Fe'i cyflogir yn rhan amser. Gellir cysylltu â'r Clerc drwy e-bost: cyngorllanllechid@ogwen.org, llythyr – 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE neu ffonio (01248) 602131.

## GWEFAN

Mae gwybodaeth am y Cyngor, gan gynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion, polisïau a datganiadau ariannol ar y wefan, sef https://www.partneriaethogwen.cymru/

# 4. Is Bwyllgorau

Cefnogir gwaith y Cyngor gan Is-bwyllgorau sy'n cyfarfod yn achlysurol i ystyried materion penodol.  Enwebir yr aelodau yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor bob mis Mai.

- Is-bwyllgor Mynydd – Y Cynghorwyr Wyn Bowen Harris, Rhydian Williams, Dafydd Jones
- Is-bwyllgor Llwybrau – Y Cynghorwyr Kevin Williams, Lowri Evans, Dafydd Jones
- Is-bwyllgor Cyllid – Y Cynghorwyr Rhydian Williams, Robin Williams, Geraint Hughes
- Is-bwyllgor Cae Chwarae Tal y Bont – Y Cynghorwyr Evan Jones, Wyn Bowen Harris, Alun Thomas, Rhydian Williams, Geraint Hughes

Cynrychiolwyr ar gyrff amrywiol eraill

- Partneriaeth Ogwen – Cyng Lowri Evans
- Ynni Ogwen – Cyng Rhydian Williams

# 5. Llwybrau

**Rhif 1**. O Poncylôn i Tanymarian a Wern Bach Isaf

**Rhif 2**. O Gapel Gatehouse, Talybont i Tanymarian a Wern Bach Isaf

**Rhif 3.** O Mignant i Gatehouse

**Rhif 4.** O Wern Bach i Sychnant

Rhif 5. O Garnedd Uchaf I lwybr rhif 15 Abergwyngregyn

**Rhif 6.** O Bronydd Isa i'r Mynydd

**Rhif 7.** O Bronydd Isa i Aber (Llwybr Ffordd Lord)

**Rhif 8.** O Capel Ogwen i Aber – ar hyd lan y mor

**Rhif 9.** O'r ffordd fawr islaw Fferm Ty'n Hendre ar hyd y caeau i Ffordd Aber Ogwen ac i Capel Ogwen

**Rhif 10.** O Bryn Eithin i Fferm Bronydd

**Rhif 11.** Llwybr yn arwain o rhif 10 i Ffordd Bronydd (Llwybr Pendu)

**Rhif 12.** O Tanybwlch i Afonwen – llwybr dros y mynydd

**Rhif 13.** O Tanybwlch Bach i'r Mynydd (Llwybr Waen Bryn)

**Rhif 14.** O Tyddyn Stabal i Aber – o Tyddyn Stabl drwy 3 giat mochyn ac i'r mynydd.

**Rhif 15.** O Braichmelyn i Pont Ogwen

**Rhif 16.** O Penrhiw, Braichmelyn i Ty Gwyn, Nant Ffrancon – llwybr dros y mynydd

**Rhif 17.** O Ty Gwyn, Nant Ffrancon i Maes Caradog, Nant Ffrancon

**Rhif 18.** O Ffrith Wen i Tanygarth yn arwain i mynydd Bwlch y Garth

**Rhif 19.** O Talcae i Tanygarth

**Rhif 20.** O afon Ffrydlas i Parc – Tanygarth

**Rhif 21.** O Parc i Tanygarth – yn ymuno a llwybr rhif 18

**Rhif 22.** Llwybr Ty Slatters i'r mynydd

**Rhif 24.** O Ffrith Wen i Parc

# Llwybrau

**Rhif 25.** O Tanybwlch i'r mynydd a Henysgubor,  Tyddyn Sabel a Nant y Ty.

**Rhif 26.** O Talybont i Eglwys St. Cross

**Rhif 27.** O Fferm Plas Ucha (ffordd Bronydd) i Gatehouse, Talybont

**Rhif 28.**  O Ffordd Llanllechid, Talybont (Wern Bach)  i Ffordd Wern

**Rhif 29.** O Ffordd Wern i Parc Moch (Fferm Coed)

**Rhif 30.** O Tanybryn, Llanllechid i Fferm Bryn (Bryn)

**Rhif 31.** O Ffordd Llanllechid (cychwyn yn Pontyllan) i Fferm Talysarn

**Rhif 32.** O Ffordd Llanllechid (cychwyn o Pontyllan)  i Lon Goed

**Rhif 33.** O Ffordd Llanllechid i Cae'r Groes, Ffordd Tanybwlch

**Rhif 34.** O Talysarn i Ffordd Llanllechid – ar hyd y lon ffarm

**Rhif 35.** O Llwyn Bleddyn i Lon Goed

**Rhif 36.** O Ffordd Bethesda i Lon Goed – cychwyn yn Bryn Belaa trwy Fferm Coed Isaf.

**Rhif 37.** O Pandy i Tai'n y Coed a Lon Goed

**Rhif 38.** O Halfway i Cochwillan

**Rhif 39.** O Shaky Bridge i Cochwillan (Factory)

**Rhif 40.** O Bronydd Isa i Fedw

**Rhif 41.** O Tanlon i Bronydd

**Rhif 42.** O Fferm Tai'r Meibion i Fferm Ty'n Lon (Gilfach)

**Rhif 43.** O Tanrallt – Tanrallt Cottages i Aberogwen

**Rhif 44.** O'r ffordd fawr islaw Ty'n Hendre i Aberogwen drwy Fferm Glanmor Isaf

**Rhif 45.** O Ffordd Gatehouse drwy Llwyn Celyn Bach i'r ffordd fawr (Llwyn Celyn)

**Rhif 46.** O Afon Ogwen ger Ty Gwyn ac yn ymuno a llwybr 61 Llandegai.

# 6. Cyllid a Gwariant

- Praesept ariannol y Cyngor eleni £17,563.03

- Yn flynyddol, mae'r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd a archwiliad allanol gan Awdit Cymru.

- Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf ar y wefan.

# 7. Rhoddion

- Penderfynwyd ar roddion ariannol y flwyddyn 2025-26.

- Llais Ogwan
- Theatr Bara Caws
- Ambiwlans Awyr
- Cymdeithas hanes Dyffryn Ogwen
- Urdd Gobaith Cynru
- Carnifal Bethesda
- Urdd – Cronfa cyfle i bawb
- Marie Curie
- Hwb Ogwen
- Sefydliad Merched Carneddi

# 8. Atebolrwydd

- Mabwysiadodd y Cyngor Gôd Ymddygiad Aelodau.
- Mae gofyn i’r cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiant sydd ganddynt am eitemau i’w trafod ar ddechrau bob cyfarfod ac fe’i cofnodir yn fisol.
- Archwilir cyfrifon y Cyngor gan Archwilydd Mewnol ac Allanol yn flynyddol. Cynhelir yr Archwiliad Mewnol gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd a’r un allanol gan Archwilio Cymru. Cyhoeddir copi o’r cyfrifon ar wefan y Cyngor.

# 9. Prosiectau

- Prosiect Cae Cymunedol Talybont.

Mae cam un o’r brosiect wedi ei orffen.

- Prynu tanc dŵr 1000 ltr gyda gorchydd arbennig a chysylltydd pibell ¾modfedd ar gyfer dyfrio’r gerddi bach fydd yn rhan o’r cynllun mawr.
- Prynu goleuadau solar pwrpasol i oleuo’r gwahanol rannau/gweithgareddauunwaith bydd y prosiect cyfan wedi ei gwblhau.
- Ail leoli y cwt/cynhwysydd dur i gynnwys: paratoi lle parhaol gan symud pridd; rhoi gorchydd terram; rhoi gwastraff llechi fel sail. Hefyd i greu to I ddal a chyfeirio dŵr glaw ar gyfer y tanc maes o law. Adeiladu fframwaith coed i ddal y tanc ryw ddwy droedfedd i ffwrdd o’r ddaear.
- Cyfarfod artist lleol, Elen Williams i drafod gweithio efo plant y gymuned i ddylunio cynllun a’u rôl yn peintio’r cwt.
- Penderfynwyd creu cystadleuaeth dylunio llun neu batrwm fyddai’n agored iblant blynyddoedd 5 a 6 ysgolion Llanllechid a Llandygai ac y byddai’r artist yn trosglwyddo gwaith yr enillydd ar y cwt.
- Cafwyd ymateb da iawn a chan fod y gystadleuaeth mor glos penderfynwyd tynnu rhestr fer a gadael i’r gymuned benderfynu yr enillydd. Felly, dewiswyd y pump gorau ac anfon rhain allan ar Facebook Tal y Bont gyda rhifau ynunig, dim enwau unigolion nag ysgol
- Cytynwyd ar roi gwobr o £30 i’r enillydd a £20 I’r ail ar ffurf tocyn i’w wario ar offer celf.

- Cae Chwarae Talybont
  - Gweithredu ar argymhellion archwiliad diogelwch blynyddol ROSPA ac archwiliad y Maes Chwarae gan y Cwmni Arolygu Chwarae yn ystod y flwyddyn
- Mynwent Llanllechid
  - Torrwyd y gordyfiant yn y fynwent. Mae arian wedi'i glustnodi yn y gyllideb ar gyfer toriant 2026-2027.
- Yn ystod y flwyddyn cawsom nifer o sgyrsiau difyr a phwysig gydag asiantaethau fel Yr Ymddiriolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Menter Iaith Gwynedd.
- Yn ogystal rydym yn pwyso yn barhaus ar Gyngor Gwynedd i wneud gwelliannau pan fo angen.

# 10. Canlyniadau Archwiliadau Mewnol ac Allanol o Gyfrifon y Cyngor

- Ar y wefan

# 11. Diolchiadau

- Hoffem ddiolch i'r Cyng Rhydian Williams, Cadeirydd 2025-26 am ei roddiant yn ystod y flwyddyn.
- Hoffem hefyd ddiolch i Gyngor Gwynedd am ddyfarnu grant Gwynedd Ni I Gyngor Llanllechid i gwblhau cam 1 o ddatblygiad y Cae Cymunedol yn Nhalybont.
- Diolch i'r Cynghorydd Sîr Rebeca Roberts, Trystan Edwards o'r Ymddiriolaeth Genedlaethol, Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Iwan Hywel Pen Swyddog Menter Iaith Gwynedd am ei hamser
- Hoffai'r Cyngor Cymuned ddiolch i'r holl wirfoddlwyr sydd yn helpu gyda torri gwair y cae peldroed.
- Hoffem ddiolch i drefnwyr Ras Cefn y Ddraig am ei rhodd hael ar gyfer prosiectau lleol.
- Hoffem hefyd ddiolch i Julian Johnson am ei waith caled yn Nhalybont yn cynnal a chadw.

# 12. Amcanion Y Cyngor am 2026/2027

- Mae'r Cyngor Cymuned yn gobeithio gosod plac ar cwt Dafydd Ross i ddiogelu'r enw a gwarchod yr hanes
- Mi rydym yn gobeithio comisiynnu plac tebyg i ddiogelu hanes a strwythyr silff llefrith Bryn Owen, Llanllechid
- Amcan arall yw diogelu enw Maes y Groes drwy roid arwydd yno
- Hefyd gwneud cais am grant pellach i ddatblygu'r cae chwarae
- Byddwn yn croesawu gohebiaeth am unrhyw prosiect gellir y Cyngor ei gefnogi/mabwysiadu.